# Dod yn fudiad



## A oes angen strwythur ffurfiol arnom ni?

Yn aml, gall grwpiau gwirfoddol ddechrau fel casgliad o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn modd anffurfiol heb strwythur ffurfiol. Gall y trefniant anffurfiol hwn weithio ar gyfer gweithgareddau syml iawn, ond os bydd gwaith y gr p yn datblygu i fod yn rhywbeth mwy, bydd angen i chi benderfynu a ddylai eich gr p gael strwythur ffurfiol. Gallai hyn ei roi ar y llwybr i fod yn fudiad.

Dylech ystyried ffurfioli eich gr p os ydych chi:

- Eisiau cael cyllid
- Eisiau mynd ar ôl ased, e.e. adeilad cymunedol
- Yn pryderu ynghylch bod yn atebol i'r gr p yn ariannol
- Eisiau cael gwirfoddolwyr ac o bosibl staff yn y dyfodol
- Eisiau llunio unrhyw fath o gontract
- Eisiau diogelu'r bobl sy'n gysylltiedig â'ch gweithgareddau

Bydd angen i chi fod yn eglur ynghylch sut mae'r gr p yn mynd i gael ei gyllido. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r math o strwythur cyfreithiol ar gyfer eich gr p ac a allai ddod yn elusen neu'n fenter gymdeithasol.

Bydd ffurfioli strwythur eich gr p yn cynnwys:

- Ysgrifennu dogfen lywodraethu (a elwir hefyd yn gyfansoddiad). Set o reolau ar gyfer y gr p yw dogfen lywodraethu sy'n egluro beth fyddwch chi'n ei wneud a sut byddwch chi'n gweithredu. (Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran dogfen lywodraethu)
- Dod o hyd i ddigon o bobl (mae o leiaf tri yn arfer da) i ymddwyn fel y corff llywodraethu ar gyfer y gr p

Os byddwch chi'n penderfynu ffurfioli eich gr p drwy fabwysiadu cyfansoddiad, bydd yn dod yn gr p a gyfansoddwyd. Mae'n bwysig nodi y bydd y bobl ar y corff llywodraethu'n atebol yn bersonol am

weithrediadau gr p a gyfansoddwyd (gan nad yw'n gorfforedig). Efallai na fydd hyn yn briodol, yn dibynnu ar weithgareddau'r gr p a'r arian o dan sylw, ac os felly, dylech ystyried a ddylai eich gr p fod yn gorfforedig. Caiff hyn ei egluro yn yr adran Rheoli atebolrwydd.

# Penderfynwch ar sut byddwch chi'n rhedeg eich gr p

Os ydych chi eisiau ffurfioli eich gr p, bydd angen i chi ystyried y math gorau o strwythur cyfreithiol ar gyfer y mudiad rydych chi'n gobeithio ei greu. Bydd angen i chi feddwl am sut bydd eich gr p yn gwneud penderfyniadau a rolau a chyfrifoldebau'r bobl sy'n gysylltiedig â'i redeg. Bydd hefyd angen i chi fod yn glir ynghylch sut mae eich mudiad yn mynd i dalu am ei weithgareddau.

Rydyn ni wedi nodi rhai pethau i'w hystyried isod:

**Pwy fydd yr Ymddiriedolwyr / pwyllgor rheoli / bwrdd?**

Yr unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ar ran eich gr p yw'r ymddiriedolwyr gan eu bod wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o redeg y mudiad er mwyn iddo gyflawni ei ddiben. Er y gallai fod gan yr unigolion hyn deitlau gwahanol, fel ymddiriedolwyr, neu aelodau'r pwyllgor rheoli, nhw fel gr p sy'n gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r gr p a bydd ganddyn nhw rolau a chyfrifoldebau a fydd wedi'u nodi yn nogfen lywodraethu'r gr p ac, os yw'n berthnasol, mewn cyfraith elusennau a chwmnïau. Dylai fod gennych chi o leiaf tri Ymddiriedolwr yn eu lle o'r dechrau, ond yr arfer gorau, a'r hyn a awgrymir os ydych chi eisiau tyfu'r mudiad, yw bod gennych chi mwy na thri.

Os bydd eich gr p yn dod yn gwmni, bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfarwyddwyr cwmni.

Pan fyddwn ni'n siarad am yr Ymddiriedolwyr ar y cyd, gallant gael eu galw'n fwrdd ymddiriedolwyr neu'n bwyllgor rheoli.

Mae bod yn Ymddiriedolwr yn rôl bwysig iawn ac ni ddylid ymgymryd â hi heb ddeall yr hyn sy'n ofynnol. Gair a ddefnyddir fynych mewn perthynas â chyfrifoldebau'r bwrdd ymddiriedolwyr yw 'llywodraethu'. Llywodraethu yw'r broses y mae'r bwrdd ymddiriedolwyr yn ei dilyn i sicrhau bod y mudiad yn cael ei redeg yn effeithiol. Mae hwn yn bwnc pwysig a gallwch gael rhagor o wybodaeth amdano yn ein hadran Llywodraethu.

Pan fyddwch chi'n sefydlu eich gr p i ddechrau, rydych chi'n debygol o benodi Ymddiriedolwyr o'r bobl rydych chi'n gwybod sydd wedi cytuno i gefnogi gwaith y gr p. Ond cyn gynted ag y gallwch chi, dylech ystyried a oedd gan yr Ymddiriedolwyr gyda'i gilydd yr amrediad o wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd eu hangen i reoli eich gr p. Mae hyn yn cynnwys cael pobl sy'n deall eich ardal leol a'r bobl neu'r achosion rydych chi'n ceisio eu helpu. Dylech recriwtio pobl ar sail hynny, a gallai hyn olygu y bydd angen i chi hysbysebu am Ymddiriedolwyr.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut i recriwtio Ymddiriedolwyr yn ein hadran Llywodraethu.

**A fydd gennych chi Aelodaeth ehangach?**

Bydd angen i chi benderfynu ar aelodaeth eich gr p a bydd hyn yn cyflwyno goblygiadau i'r strwythur, ac i'r ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud. Efallai y bydd gan gr p aelodau â phwerau cyfreithiol i ddylanwadu ar y ffordd y caiff y gr p ei redeg. Gelwir y rhain yn 'aelodau cyfansoddiadol' ac mae ganddyn nhw'r p er i wneud pethau fel newid dogfen lywodraethu'r gr p neu benodi neu gael gwared â phobl o'u pwyllgor rheoli. (Mae hyn yn wahanol i bobl sy'n derbyn budd o'r mudiad a allai hefyd gael eu galw'n aelodau). Gall yr aelodau fod yr un bobl â'r rheini sy'n ymddiriedolwyr (model mudiad) neu'n gr p ehangach mwy o faint o bobl (model cymdeithas). Bydd eich aelodaeth ddewisol yn cael ei adlewyrchu yn strwythur cyfreithiol eich gr p.

**Ffynonellau eraill o wybodaeth**

### SCVO

Mae gan SCVO dudalen am wneud penderfyniadau a llywodraethu (Saesneg yn unig) sy'n cynnwys aelodau ac ymddiriedolwyr.

### NCVO

Mae tudalen NCVO am aelodau (Saesneg yn unig) yma.

**Sut bydd y gr p yn cael ei gyllido? Neu o ble fydd y gr p yn cael ei incwm? Neu o ble fydd y gr p yn cael ei incwm?**

Bydd angen i chi benderfynu sut bydd eich gr p yn codi incwm. Os byddwch chi'n ceisio cael grantiau i gefnogi eich gr p yna byddwch chi, mwy na thebyg, angen cael strwythur corfforedig, a gallech ystyried statws elusennol gan fod rhai ffynonellau grant dim ond ar gael i elusennau. Os ydych chi'n bwriadu codi arian drwy werthu nwyddau a gwasanaethau, yna fe allech weithredu fel menter gymdeithasol (sy'n fath o fusnes yn hytrach na math o strwythur) a bydd amrywiaeth o strwythurau cyfreithiol ar gael i chi.

**A fyddwch chi'n cael gwirfoddolwyr a staff?**

Wrth i'ch gr p ddatblygu i fod yn fudiad, byddwch chi si r o fod eisiau cynnwys pobl eraill yn eich gweithgareddau, felly gallech fod eisiau recriwtio gwirfoddolwyr. Efallai na fydd y bobl hyn yn gysylltiedig â rhedeg y mudiad (fel Ymddiriedolwyr neu aelodau) ond gallant barhau i ysgwyddo cyfrifoldeb yn rhinwedd eu rôl fel gwirfoddolwyr. Gallwch chi ddod o hyd i wybodaeth i'ch helpu i recriwtio, rheoli a gofalu am eich gwirfoddolwyr yn ein hadran Gwirfoddolwyr.

Mae'n bwysig eich bod chi'n cofio, hyd yn oed os oes gan eich gr p staff sy'n gweithio i chi neu wirfoddolwyr sy'n cyflawni tasgau, yr ymddiriedolwyr fydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw am redeg y gr p a phopeth y mae'n ei wneud.

Gall rhai grwpiau â digon o incwm gyflogi staff i gefnogi a chyflwyno gweithgareddau'r gr p. Mae cyflogi staff yn creu cyfrifoldebau a gofynion cyfreithiol ychwanegol o ran rheoli pobl. Mae taflen wybodaeth am Gyflogi staff am y tro cyntaf ar yr Hwb Gwybodaeth a fydd yn eich helpu â hyn. Os ydych chi eisiau cyflogi staff, argymhellir eich bod yn ystyried strwythur cyfreithiol corfforedig er mwyn lleihau'r atebolrwydd i'r ymddiriedolwyr.

Mae cyngor am weithio gyda staff a gwirfoddolwyr ar gael i fudiadau gwirfoddol drwy'r rhwydwaith o gynghorau gwirfoddol lleol (CVCs).

Gall fod yn anodd gwneud penderfyniadau ynghylch sut y bydd eich gr p yn cael ei redeg, a gwneud yn si r eich bod chi'n ystyried yr holl oblygiadau. Bydd eich cyngor gwirfoddol sirol lleol yn gallu eich helpu i weithio drwy'r opsiynau hyn, felly argymhellwn eich bod yn cysylltu â nhw.

## Rheoli atebolrwydd – a ddylech fod yn Gorfforedig neu'n Anghorfforedig?

Os byddwch chi'n penderfynu dod yn gr p a gyfansoddwyd, bydd strwythur eich gr p naill ai'n gorfforedig neu'n anghorfforedig, a bydd hyn yn berthnasol i'r ffordd y byddwch chi'n rheoli atebolrwydd neu risg.

Mae gr p **corfforedig** yn bodoli yn ei rinwedd ei hun a chaiff ei adnabod yn gyfreithiol fel endid ar wahân i'r bobl unigol sy'n ffurfio'r gr p. Mae hyn yn golygu y gall y gr p ymrwymo i gontractau a bod yn berchen ar eiddo yn ei enw ei hun. Mae hefyd yn golygu mai atebolrwydd cyfyngedig sydd gan aelodau'r gr p dros ddyledion y gr p.

Nid oes gan gr p **anghorfforedig** hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'r bobl sy'n ei redeg. Mae hyn yn golygu y byddai angen i unrhyw gontractau y byddai'r gr p yn ymrwymo iddynt fod yn enwau'r unigolion a byddent hefyd yn atebol yn bersonol am unrhyw ddyledion na allai'r mudiad eu talu.

Os ydych chi'n bwriadu ymrwymo i gontractau, codi symiau sylweddol o arian gan gynnwys o grantiau neu gyflogi unrhyw staff, dylech ystyried dod yn gorfforedig.